# Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

**2023 dsc 3**

## RHAN 3

ADEILADAU O DDIDDORDEB PENSAERNÏOL NEU HANESYDDOL ARBENNIG

## PENNOD 1

RHESTRU ADEILADAU O DDIDDORDEB ARBENNIG

*Adolygu penderfyniadau rhestru*

PROSPECTIVE

### 82 Darpariaeth atodol ynghylch adolygiadau

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth ynghylch—

(a) y ffurf a'r ffordd y mae rhaid i gais o dan adran 81 gael ei wneud;

(b) yr wybodaeth y mae rhaid ei darparu i Weinidogion Cymru, neu y gall fod yn ofynnol ganddynt, mewn cysylltiad â chais;

(c) y cyfnod y mae rhaid i gais gael ei wneud ynddo.

(2) Rhaid i adolygiad o dan adran 81 gael ei gynnal mewn un neu ragor o'r ffyrdd a ganlyn (fel y'i penderfynir gan y person sy'n cynnal yr adolygiad)—

(a) drwy ymchwiliad lleol;

(b) drwy wrandawiad;

(c) ar sail sylwadau ysgrifenedig.

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 15/06/2023. Mae’r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 82 yn gyfredol gyda’r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 14 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(3) Pan fo adolygiad yn cael ei gynnal gan berson a benodir gan Weinidogion Cymru, mae gan y person a benodir yr un pwerau a’r un dyletswyddau mewn perthynas â’r adolygiad ag sydd gan Weinidogion Cymru o dan—

(a) unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 175 (gofynion gweithdrefnol), a

(b) adrannau 180 a 181 (costau Gweinidogion Cymru a chostau partïon).

(4) Pan fo adolygiad yn cael ei gynnal drwy ymchwiliad lleol, mae adran 177 (pŵer i wneud tystiolaeth yn ofynnol) yn gymwys i’r ymchwiliad fel y mae’n gymwys i ymchwiliad a gynhelir o dan Ran 5.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth bellach mewn cysylltiad ag adolygiadau o dan adran 81.

(6) Mae Atodlen 2 yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch swyddogaethau personau a benodir gan Weinidogion Cymru i gynnal adolygiadau o dan adran 81.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 82 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 15/06/2023. Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 82 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 14 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.